**PWYLLGOR CYNLLUNIO 13 TACHWEDD 2013**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A DIOGELU'R CYHOEDD**

**APÊL CYNLLUNIO**

**MEWNFORIO GWASTRAFF ANADWEITHIOL AR GYFER EU HAILGYLCHU A'U DEFNYDDIO AR GYFER ADFER GWAITH CHWAREL**

**CHWAREL MAES Y DROELL FFORDD GRAIANRHYD, LLANARMON YN IÂL**

**CAIS RHIF 15/2011/0692/PF**

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw gofyn i'r Aelodau ystyried materion sy'n codi o farn ymgynghorydd cyfreithiol a phriffyrdd arbenigol ar y rhesymau dros wrthod y cais uchod, a fydd yn destun ymchwiliad cyhoeddus.

1.2. Mae'r adroddiad yn gofyn am arweiniad gan Aelodau ar safbwynt y Cyngor o ystyried y newidiadau i bolisi lleol a pholisi cenedlaethol ers y penderfyniad i wrthod ym mis Chwefror 2013.

## 2. Cefndir

2.1. Penderfynwyd ar y cais gan y Pwyllgor Cynllunio ar 20 Chwefror 2013. Cafodd caniatâd cynllunio gael ei wrthod am dri rheswm. Caiff y rhain eu hatgynhyrchu yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Roedd dau reswm yn ymwneud â materion priffyrdd a'r llall yn ymwneud ag amwynder preswyl. Mae adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor Cynllunio ar yr eitem ynghlwm fel Atodiad 2.

2.2. Yn dilyn cyflwyno apêl, mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cadarnhau dyddiad cychwyn ar gyfer y broses apelio (24 Hydref 2013) ac mae wedi cynghori y bydd yr apêl yn cael ei thrin drwy ymchwiliad cyhoeddus ym mis Chwefror 2014.

2.3. Ers y penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio, bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod yr awdurdod cynllunio lleol wedi mabwysiadu ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar 4 Mehefin 2013. Mae'r CDLl yn disodli'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) fel Cynllun Datblygu'r Cyngor, ac yn cyflwyno newidiadau i bolisi lefel leol mewn perthynas â chynigion ar gyfer rheoli gwastraff. Bydd yn ddyletswydd ar yr Arolygydd sy'n penderfynu ar yr apêl i ystyried polisïau perthnasol y cynllun datblygu.

2.4. Yn y cyfnod ers y penderfyniad i wrthod caniatâd, mae swyddogion wedi ceisio cyngor ar yr achos i gefnogi'r rhesymau priffyrdd dros wrthod, a hefyd wedi dod yn ymwybodol o ddiwygiadau i bolisi cynllunio gwastraff cenedlaethol, drwy Nodyn Cyngor Technegol diwygiedig drafft (TAN) 21, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ym mis Mawrth 2013. Disgwylir drafft diwygiedig terfynol TAN 21 gael ei gyhoeddi gaeaf 2013/14. Credir bod y canllawiau drafft yn berthnasol i ganlyniad yr apêl, a bydd angen i'r arolygydd cynllunio eu hystyried hefyd.

2.5. Bydd yr Arolygydd apêl yn rhoi cryn bwys ar bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol a pholisi cenedlaethol mwy diweddar, yn hytrach na'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) yn yr asesiad o'r cynigion.

2.6. Mae'r cyd-destun uchod wedi gwneud i swyddogion ystyried y goblygiadau ar gyfer cyflwyno achos y Cyngor yn yr ymchwiliad.

2.7. Yn arwyddocaol, mae'r CDLl yn cynnwys polisïau sy'n sylweddol wahanol i rai y CDU. Mewn perthynas â'r materion defnydd tir sylfaenol sy'n ymwneud â'r rhesymau dros wrthod, nid yw'r newidiadau yn y polisi yn cael eu hystyried yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau newid sylfaenol yn safiad y Cyngor yn yr ymchwiliad sydd ar y gweill. Fodd bynnag, mae yna newidiadau polisi *sy'n* cael eu hystyried yn ddigon arwyddocaol i dynnu sylw'r Arolygydd apêl fel rhan o'r broses, ac mae'r rhain yn ymwneud â derbynioldeb y cynnig mewn egwyddor ac yn benodol yr angen am y cynnig. Mae'r rhain yn effeithio ar gyflwyniad manwl achos y Cyngor yn gwrthwynebu’r cynnig, ac ymdrinnir â hwy yn y paragraffau canlynol. Cyfeirir at faterion priffyrdd yn adrannau 2.20 - 2.25 o'r adroddiad.

*Egwyddor*

2.8. Ystyriwyd egwyddor y datblygiad arfaethedig yn y lleoliad hwn o ran:

- Yr egwyddor o fewnforio deunydd i gynorthwyo’r gwaith o adfer y chwarel; a
- Yr egwyddor o gyfleuster ailgylchu yn y lleoliad hwn.

2.9. Mae Maes Y Droell yn chwarel weithredol gyda chaniatâd cynllunio i echdynnu mwynau hyd at 2042. Mae yna gynllun adfer, a gymeradwywyd dan ganiatâd 15/384/96 ac mae'r cynnig hwn yn ceisio ei addasu trwy fewnforio deunydd anadweithiol a chreu proffiliau adfer amgen. Mae Nodyn Canllaw Cynllunio Mwynau 7 (sy'n cael ei ganslo am agregau, ond nid ar gyfer mathau eraill o echdynnu mwynau) yn cydnabod y defnydd o ddeunydd llenwi (gan gynnwys gwastraff) ar gyfer adfer y chwarel.

2.10. Cyflwynodd yr ymgeisydd Ddatganiad o Angen i gefnogi'r cynnig a oedd yn nodi'r angen ar gyfer cael gwared ar ddeunydd anadweithiol, yr angen ar gyfer cyfleusterau gwastraff anadweithiol, yr angen am gapasiti cael gwared a'r angen am gymorth ariannol ar gyfer adfer. Nid oes gwybodaeth ariannol manwl wedi cael ei gyflwyno ac mae’r angen am gyfleusterau anadweithiol yn seiliedig ar ddata yng Nghynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru (2004) ac Adolygiad 1af Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru (2009). Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr Egluro Polisi, CL-01-12 ar 1 Tachwedd 2012 sy'n cynghori bod Cynllun Isadeiledd Casgliadau a'r Sector Marchnadoedd (CIMSP) (2012) yn diweddaru'r sefyllfa o ran angen mewn perthynas â chynigion ar gyfer rheoli gwastraff. Nid oedd y CIMSP yn rhoi arweiniad clir ynghylch y gofyniad gofodol ar gyfer cyfleusterau ar gyfer rheoli gwastraff anadweithiol, gan gynnwys cael gwared ar wastraff anadweithiol a thrafodwyd y mater hwn yn Adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Chwefror 2013. Mae drafft diwygiedig y TAN yn darparu eglurder ar y mater hwn, ond ni chafodd ei gyhoeddi tan ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud mewn perthynas â'r cais hwn.

*Pwysig: Yr angen am adfer*

2.11. O ran egwyddor mewnforio deunydd gwastraff i gynorthwyo ag adfer y chwarel, ystyrir bod hyn yn dal i fod yn dderbyniol. Nid yw'r CDLl yn cynnwys polisi adfer penodol ac mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (MPPW) yn cynghori dylai safonau adfer gael eu nodi ar y lefel leol. Felly’r hyn a gwestiynir yw a yw lefel y mewnforio arfaethedig yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gwaith adfer *boddhaol*, yn enwedig o ystyried y newid mewn polisi cenedlaethol (drafft diwygiedig TAN 21) sy'n ceisio sicrhau bod deunydd yn cael ei ailgylchu lle bo'n bosibl. Ers i adroddiad y Swyddog gael ei ysgrifennu mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi drafft diwygiedig o TAN 21 sy'n datgan *"nid yw tirlenwi gwastraff anadweithiol yn dderbyniol yn y rhan fwyaf o amgylchiadau a heb gyfiawnhad eithriadol dylid gwrthod ceisiadau cynllunio ar gyfer tirlenwi anadweithiol. Gallai adfer chwareli sy’n defnyddio gwastraff anadweithiol brofi i fod yn eithriad ac mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen cydweithio agos rhwng awdurdodau cynllunio a CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru) i gael canlyniad boddhaol.* Mae’r defnydd terfynol, ar gyfer pori a bywyd gwyllt, o'r fath fel nad yw’r lefel angen adfer arfaethedig (y tirffurf 'llawn') yn cael ei ystyried yn briodol i gyflawni lefel foddhaol o adfer. Ystyrir y gellir cyflawni lefel foddhaol o adfer heb y lefel o fewnforio a gynigir yn y cynllun apêl. Ni chyflwynwyd unrhyw amgylchiadau eithriadol i gyfiawnhau barn wahanol gan yr Apelyddion ym marn eich swyddogion.

*Cyflawni adferiad pe bai’r apêl yn cael ei gwrthod*

2.12. Os digwydd bod yr apêl yn cael ei gwrthod, gellir dal sicrhau adfer y safle drwy'r broses Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau (ROMP). Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno cais AHGM y mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn ei ddal yn ddi-rym tra'n aros canlyniad yr ymchwiliad hwn. Mae yna hefyd gynllun adfer a gymeradwywyd dan ganiatâd 15/384/96 ac er y dywed yr ymgeisydd y byddai angen mewnforio mwy o ddeunyddiau ychwanegol i gyflawni'r lefelau cymeradwy, mae'n llawer llai na'r hyn sy'n ofynnol o dan y cynllun adfer llawn a gyflwynwyd o dan y cynllun apelio. Yn ogystal, mae rhai rhannau o'r chwarel eisoes wedi cael eu hailfeddiannu gan natur, gan ddangos y bydd adfywiad naturiol yn digwydd heb ymyrraeth weithredol.

_Pwysig: Yr angen am gapasiti cael gwared_

2.13. Polisi VOE 8 o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yw'r polisi lleol y caiff cynigion ar gyfer rheoli gwastraff y tu allan i ffiniau datblygu eu hasesu yn ei erbyn. Mae Polisi VOE 8 yn gofyn i gynigion fodloni nifer o feini prawf manwl, gan gynnwys *'mae angen heb ei ddiwallu wedi'i nodi yn y cynllun Gwastraff Rhanbarthol neu mae'r cynnig yn ymwneud â rheoli gwastraff a gynhyrchir ac i'w gael ei drin yn gyfan gwbl ar y safle hwnnw'.* Nododd Adolygiad 1af Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (2009) byddai Sir Ddinbych ag angen am 9,245 tunnell y flwyddyn, fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru nodyn egluro polisi yn dweud bod y Cynllun Sector Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd yn darparu'r sefyllfa ddiweddaraf ar angen. Mae'r Cynllun CIMs yn datgan nad yw gwastraff C & D yn cael ei drafod yn fanwl gan ei fod yn cael sylw yn y Cynllun Sector C & D. Mewn perthynas â gwastraff gweddilliol C & D, mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif (yn y CIMs) y gall fod angen capasiti rhwng 200 a 250 mil o dunelli y flwyddyn (tyf) ar gyfer y llif gwastraff hwn (tudalen 76) ar lefel Cymru gyfan. Nid oes unrhyw gyngor pellach ar y lefel cael gwared gofynnol ar gyfer y llif gwastraff hwn, ond yn holl bwysig, mae drafft diwygiedig TAN 21 yn datgan yn weithredol nad yw cael gwared ar gyfer gwastraff anadweithiol yn dderbyniol yn y rhan fwyaf o amgylchiadau.

2.14. Yn 2012 cafwyd gwared ar ychydig yn is na 116, 000 tunnell o wastraff mewn safleoedd tirlenwi anadweithiol (yn 2011, cafwyd gwared ar 119,796) yng Ngogledd Cymru. Ers 2001 mae faint o wastraff anadweithiol y cafwyd gwared arno mewn safleoedd tirlenwi anadweithiol yng Ngogledd Cymru wedi amrywio'n sylweddol a chânt eu dylanwadu fwyaf mae'n debyg gan brosiectau adeiladu mawr a wnaethpwyd yn ystod blynyddoedd penodol, er nid yw'r gwastraff y cafwyd gwared arno wedi bod yn fwy na 181,000 tyf ers 2000 (dyma'r cynharaf mae'r set data hwn yn mynd). Gellir hefyd rheoli gwastraff anadweithiol mewn safleoedd tirlenwi nad ydynt yn beryglus; fodd bynnag, mae gofyniad cyffredinol ar gyfer gwastraff o'r fath gan y gellir eu defnyddio fel gorchudd dyddiol, i adeiladu ffyrdd cludo ac fel rhan o'r gwaith adfer a chapio. Mae Gogledd Cymru yn weddol hunangynhaliol o ran cael gwared ar wastraff anadweithiol mewn safleoedd tirlenwi anadweithiol, er y gall fod yna wastraff nad yw'n cael ei gofnodi gan ei fod yn tarddu o ranbarth sy'n cael ei reoli rhywle arall oherwydd natur y modd y cesglir data gwastraff. Ar ddiwedd 2012, roedd ychydig llai na 928,000 metr ciwbig o le gwag ar ôl mewn safleoedd tirlenwi anadweithiol a ganiateir, heb gymryd i ystyriaeth y lle yn safle tirlenwi Llanddulas yng Nghonwy neu Chwarel Parry yn Sir y Fflint. Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn 2009 ar apêl yn Chwarel Parry, Alltami, sy'n cynnwys lletem 400,000 ar gyfer gwastraff anadweithiol. Mae cais am drwydded wedi ei gyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru a diddymwyd nifer o amodau, er nad yw'r caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar waith hyd yma. Byddai hyn yn darparu capasiti cael gwared anadweithiol sydd o fewn pellter rhesymol o safle'r apêl ac sy'n gallu darparu ar gyfer y marchnadoedd lleol o amgylch Yr Wyddgrug.

2.15. O ystyried cyfraddau dyddodiad a welwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf mewn perthynas â gwastraff anadweithiol, mae lefel y lle gwag a ganiateir ac sydd ar gael yng Ngogledd Cymru yn cael ei ystyried lawer mwy na'r lle gwag sydd ei angen i alluogi'r rhanbarth i reoli cael gwared ar ei wastraff anadweithiol ei hun am y 10 mlynedd nesaf . Ym marn y Swyddog, does dim angen am gapasiti cael gwared anadweithiol ychwanegol o fewn y rhanbarth ar hyn o bryd.

_Ailgylchu_

2.16. Darparodd Polisi MEW 5 o'r CDU gefnogaeth benodol ar gyfer y lleoli gweithgareddau ailgylchu ar gyfer gwastraff adeiladu mewn hen chwareli. Mae polisi cenedlaethol hefyd yn nodi y gallai chwareli fod yn lleoliadau addas ar gyfer gweithgareddau o'r fath. Nid chafodd Polisi MEW 5 ei gynnwys yn y CDLl ac felly ni fydd yn cael ei ddefnyddio i benderfynu ar yr apêl.

2.17. Yn ystod datblygu'r CDLl, cafodd safleoedd ar draws y Sir eu gwerthuso i benderfynu a oeddent yn addas ar gyfer defnydd rheoli gwastraff a arweiniodd at nodi nifer o safleoedd penodol a fyddai'n cael eu dyrannu ar gyfer rheoli gwastraff o dan bolisi VOE7. Nid yw Maes Y Droell yn lleoliad a gafodd ei enwi yn y polisi. Mae Polisi VOE 7 hefyd yn nodi y bydd defnydd o'r fath yn dderbyniol ar y cyfan ar stadau diwydiannol presennol. Nid yw Maes Y Droell yn stad ddiwydiannol ac mae wedi ei leoli tu allan i'r ffin datblygu. Byddai'r cynnig felly'n cael ei werthuso o dan bolisi VOE 8 sy'n darparu canllawiau ar gyfer rheoli gwastraff y tu allan i ffiniau datblygu. Mae'r polisi yn caniatáu gweithgareddau gwastraff y tu allan i ddatblygiad yn amodol ar nifer o brofion manwl, gan gynnwys (i) *mae angen heb ei ddiwallu wedi'i nodi yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, (ii) mae safleoedd a ddyrannwyd naill ai ddim ar gael neu'n anaddas ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig; a iii) nid oes unrhyw safleoedd addas o fewn y ffin ddatblygu.* Nid oedd Adolygiad 1af Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru yn nodi angen ar gyfer ailgylchu deunydd adeiladu a dymchwel ychwanegol yn Sir Ddinbych, er ei fod yn nodi gofyniad ychwanegol ar gyfer awdurdodau cyfagos, Sir y Fflint[1] (38,810) a Chonwy (81,229).

2.18. Mae cefnogaeth gyffredinol ar gyfer isadeiledd ailgylchu mewn polisi cenedlaethol, fodd bynnag, ychydig iawn o sylwadau sydd yna ynghylch ble neu faint o isadeiledd sydd ei angen. Disgwylir i elfen ailgylchu'r cynnig ehangu'r marchnadoedd o ble gall yr apelydd ddenu gwastraff a lleihau faint o ddeunydd y gellir ei adennill sy'n cael ei ddefnyddio i lenwi'r bwlch yn y chwarel. Hefyd, dywedodd yr ymgeisydd bod cydleoli'r gweithgareddau cael gwared ac ailgylchu yn lleihau'r pellter sy'n rhaid i'r gwastraff deithio. Felly mae budd yn elfen ailgylchu'r cynllun apêl yn cael ei leoli yn y chwarel. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae cyfleusterau ailgylchu gwastraff anadweithiol ar draws Gogledd Cymru yn aml yn gyfleusterau ei ben ei hunain sy'n dangos nad yw'n hanfodol i gydleoli gweithgareddau ailgylchu a chael gwared. O ystyried bod safleoedd presennol a ganiateir a safleoedd a ddyrannwyd o fewn pellter rhesymol i safle'r apêl, credir nad yw'r cynnig yn bodloni gofynion polisi VOE 8 y CDLl.

2.19. Cyflwynwyd a phenderfynwyd ar y cais cynllunio o fewn y cyd-destun polisi a ddarperir gan y Cynllun Datblygu Unedol. Er bod y Cynllun Sector Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd wedi ei gyhoeddi a'r Nodyn Egluro Polisi wedi cael ei gyhoeddi ar yr adeg y penderfyniad a wnaed mewn perthynas â'r cais hwn, gwnaethpwyd y penderfyniad cyn cyhoeddi drafft diwygiedig Nodyn Cyngor Technegol 21, sy'n cynghori nad yw tirlenwi gwastraff anadweithiol yn dderbyniol yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Ym marn y Swyddogion, mae'r newidiadau hyn o bwys sylfaenol, a byddwn yn awr yn arwain Swyddogion i gymryd agwedd wahanol ar dderbynioldeb y cynnig. Yng ngoleuni'r newidiadau hyn ystyrir bod y cynnig yn groes i bolisi VOE 8 y CDLl a fabwysiadwyd a drafft diwygiedig Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21.

*<u>Priffyrdd</u>*

2.20. Yn dilyn mabwysiadu'r CDLl, mae'r cyd-destun ar gyfer ystyried effeithiau priffyrdd datblygiad mewn cefn gwlad agored yn cael ei nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru 3.1.4, sy'n cyfeirio at yr hyn y gellir eu hystyried fel ystyriaethau perthnasol ac y gallai'r rhain gynnwys nifer, maint, gosodiad, dyluniad ac edrychiad yr adeiladau, mynedfa, tirlunio, argaeledd gwasanaethau a'r effaith ar y gymdogaeth ac ar yr amgylchedd. Felly, mae derbynioldeb mynedfa yn brawf safonol ar geisiadau cynllunio.

---

[1] *Ers hynny, rhoddwyd caniatâd cynllunio yn Wire Works (Hendre) a chafwyd gwared ar yr amod a oedd yn atal mewnforio agregau i'w hailgylchu ym Moel Y Faen.*

2.21. Mewn perthynas â materion priffyrdd, gwrthodwyd caniatâd am y rhesymau canlynol:

Rheswm 1 dros wrthod:
*Ym marn yr Awdurdod Lleol, mae'r datblygiad yn annerbyniol oherwydd rhesymau yn ymwneud â phriffyrdd. Byddai'r cynnig yn arwain at gynnydd yn nifer y cerbydau nwyddau trwm sy'n defnyddio'r rhwydwaith o ffyrdd gwledig anaddas. Byddai hynny yn ei dro yn peryglu defnyddwyr presennol ac arfaethedig y ffordd ac yn effeithio ar ddiogelwch a llif y traffig, sy'n groes i Bolisïau GEN 6 vii, TRA 6, a MEW 11 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.*

Rheswm 2 dros wrthod:
*Nid yw'r cynlluniau a gyflwynwyd yn dangos bod modd creu mynediad cerbydau newydd diogel a boddhaol, gyda lleiniau gweledig ar y briffordd er mwyn gwasanaethu'r datblygiad, ac yn absenoldeb cynlluniau o'r fath, nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y cynigion yn rhai derbyniol ar sil diogelwch priffyrdd, gyda'r fynedfa a'r ffordd fynedfa/ cyffordd sy'n gwasanaethu'r hen chwarel yn anaddas ar gyfer traffig cerbydau nwyddau trwm ychwanegol, a fydd yn debygol o arwain at beryglon ychwanegol i ddefnyddwyr presennol ac arfaethedig y ffordd, ac yn effeithio ar ddiogelwch a llif y traffig ar y briffordd gerllaw'r safle, sy'n groes i Bolisïau GEN 6 vi a Vii, TRA 6, a MEW 11 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych, a Nodyn Cyngor Technegol 18: Cludiant.*

2.22. Gan ystyried y rhesymau uchod, ac wrth baratoi ar gyfer yr apêl, mae'r Cyngor wedi gofyn cyngor oddi wrth Ymgynghorydd Priffyrdd a Chwnsler Arweiniol ar y sylwedd yr achos i o blaid y seiliau penodol dros wrthod. Mae crynodeb o asesiad yr Ymgynghorydd Priffyrdd wedi'i gynnwys fel Atodiad 3.

2.23. Mewn perthynas â rheswm 1, mae'r Ymgynghorydd Priffyrdd yn ystyried bod gan y briffordd ddigon o gapasiti i ddarparu ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn y traffig sy'n deillio o'r cynllun apêl ac nad oes unrhyw bryderon diogelwch priffordd yn deillio o'r cynnig ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud â'r fynedfa, sef testun rheswm 2 dros wrthod. Yng ngoleuni hyn, argymhellir na ddylid mynd ar ôl rheswm 1 dros wrthod, ac eithrio i'r graddau y mae'n gysylltiedig â rheswm 2 dros wrthod.

2.24. Mewn perthynas â rheswm 2, mae'r Ymgynghorydd Priffyrdd yn ystyried y dylid mynd ar drywydd y rheswm dros wrthod, ond mae'n nodi y gallai'r ymgeisydd fynd i'r afael â'r rheswm hwn dros wrthod drwy gyflwyno cynllun mynediad diwygiedig. Pe bai cynllun ychwanegol yn cael ei gyflwyno bydd angen i'r Cyngor a'i ymgynghorwyr roi ystyriaeth briodol iddo, a fydd maes o law yn cyfarwyddo ei safiad yn yr ymchwiliad dilynol.

2.25. I'r perwyl hwnnw, yn ddiweddar iawn mae'r Apelydd wedi anfon cynllun mynediad diwygiedig ac wedi gofyn am farn y Cyngor arno. Nid yw'r Apelydd, fodd bynnag, wedi cyflwyno'r cynllun hwn fel darlun cais am benderfyniad, ond yn hytrach ei fwriad yw dangos y gellir rhoi lleiniau gweledig digonol. Pe bai pryderon eraill yn codi o'r cynllun, megis yr effaith ar hawl tramwy cyhoeddus, Gofynnwyd am gyngor gan y Cwnsler Arweiniol, ac mae'r Cwnsler yn cynghori mewn achos lle mae angen gwneud penderfyniad ar fynediad, yna mae'n rhaid i'r penderfynwr gael cynllun cais i allu gwneud y penderfyniad hwnnw. Byddai peidio â gwneud hynny'n anghywir yn ôl y gyfraith. Mae'r cynllun mynediad gwreiddiol wedi cael ei dynnu'n ôl ac felly rŵan nid oes unrhyw gynllun mynediad ar gyfer yr arolygydd cynllunio. Yn y bôn, problem i'r Apelydd yw hyn, fodd bynnag, os caiff cynllun mynediad ei gyflwyno am benderfyniad a chaiff ei dderbyn gan yr Arolygydd fel cynllun mynediad yna gofynnir am farn y Cyngor fel yr awdurdod priffyrdd lleol. Yn unol â hynny gofynnir am awdurdod i gynnal ymgynghoriad o'r fath ac i'r Pennaeth Gwasanaeth ddiwygio achos y Cyngor yng ngoleuni barn swyddogion priffyrdd ac ymgynghorwyr mewnol eraill.

2.26. Pe na bai cynllun mynediad yn cael ei gyflwyno gerbron yr Arolygydd Apêl yna bydd cyflwyniadau yn cael eu gwneud na ellir caniatáu'r apêl yn gyfreithlon. Nodir bod yr awgrym gynharach y gellir delio â'r mater hwn drwy amod Grampian yn cael ei ystyried yn anghywir yn ôl y gyfraith.

2.27. Felly, credir y dylai'r cyngor sydd wedi'i amlinellu gael ei ddefnyddio i lywio'r achos i'w gyflwyno gan Swyddogion yn yr ymchwiliad.

*Amwynder Preswyl*

*2.28.* Mewn perthynas ag amwynder preswyl, gwrthodwyd caniatâd cynllunio am y rhesymau canlynol:

Rheswm 3 dros wrthod:
*Ym marn yr awdurdod cynllunio lleol, byddai'r datblygiad yn cynyddu dwysâd gweithgarwch annerbyniol, gan gynnwys traffig ychwanegol, prosesau ailgylchu a gwaith adfer y chwarel. Byddai hyn yn ei dro yn cael effaith andwyol ar amwynder preswyl yr eiddo gerllaw, o ran sŵn, llwch ac amhariadau, sy'n groes i Bolisïau GEN 6 i, v a vii, TRA 6, a MEW 11 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych".*

2.29. Yn dilyn mabwysiadu'r CDLl, y cyd-destun ar gyfer ystyried amwynder preswyl mewn perthynas â datblygu mewn cefn gwlad agored yw Polisi Cynllunio Cymru 3.1.4, sy'n cyfeirio at yr effaith ar y gymdogaeth ac ar yr amgylchedd fel ystyriaethau perthnasol posibl. Felly, mae effaith datblygiad ar amwynder preswyl yn brawf perthnasol ar geisiadau cynllunio. Caiff hyn ei bwysleisio ym Mharagraff 3.1.7, sy'n datgan y dylai cynigion gael eu hystyried o ran eu heffaith ar yr amwynder a'r defnydd presennol o'r tir a'r adeiladau er lles y cyhoedd.

2.30. O ran y dull gweithredu i'w gymryd yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus argymhellir y dylai ffocws achos y Cyngor fod ar effaith y fynedfa newydd ar amwynder preswyl. Mae yna nifer o eiddo preswyl ar hyd Ffordd Graianrhyd, gan gynnwys un eiddo preswyl, Tyn Rhos, sy'n debygol o gael ei effeithio'n andwyol gan y cynllun apêl.

**3. Casgliad**

3.1. Mae swyddogion wedi derbyn cyngor gan ymgynghorydd priffyrdd a Chwnsler arweiniol ar seiliau gwrthod. Erbyn hyn, ni chredir bod seiliau cyfiawn dros fynd ar drywydd y rheswm priffyrdd dros wrthod Rhif 1 ac eithrio i'r graddau y mae'n gysylltiedig â rheswm 2 dros wrthod, ac os yw'r ymgeisydd yn cyflwyno cynllun mynediad diwygiedig addas, a allai ddarparu digon o wybodaeth i beidio â mynd ar drywydd rheswm 2 dros wrthod yn yr apêl. Gofynnir am awdurdod dirprwyedig i ystyried unrhyw wybodaeth o'r fath. Bydd hyn, wrth gwrs, yn fater i'r Arolygydd ystyried ac mae'n biti nad yw wedi cael ei ddarparu hyd yma, sy'n cynnwys camau afresymol ar ran yr Apelydd.

3.2. Mae newidiadau mewn polisi lleol a pholisi cenedlaethol yn cwestiynu addasrwydd y safle arfaethedig o ddifrif ar gyfer yr elfen ailgylchu o'r cynnig a'r angen am yr elfen cael gwared. Ystyrir ei bod felly yn briodol erbyn hyn i dynnu sylw'r Arolygydd apêl i'r gwrthdaro â pholisi VOE 8 y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig a chanllawiau cynllunio cenedlaethol drafft diwygiedig Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: Gwastraff, fel rhan o achos y Cyngor yn yr ymchwiliad. Gallai cyflwyno materion newydd yn hwyr mewn unrhyw broses apêl adael yr awdurdod yn agored i hawliad am gostau, ond yn yr achos hwn oherwydd mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol a newidiadau i bolisi a chanllawiau cenedlaethol ers penderfynu ar y cais, mae'r risg o ddyfarnu costau cael ei ystyried yn gyfyngedig, a bydd yr Arolygydd yn cael ei wahodd i wrthod yr apêl ar y sail nad yw'r angen wedi cael ei ddangos.

**4. Argymhellion**

4.1. Yng ngoleuni'r newidiadau i bolisi cenedlaethol a lleol, bod yr egwyddor o gyfleuster ailgylchu yn y lleoliad hwn a'r angen am elfen cael gwared yn y cynnig yn ffurfio rhan o achos y Cyngor yng nghyflwyniadau'r Cyngor i'r ymchwiliad.

4.2. Bod y rheswm cyntaf dros wrthod, ac eithrio i'r graddau y mae'n gysylltiedig â'r ail reswm dros wrthod, yn cael ei ddilyn gan y Cyngor.

4.3. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu’r Cyhoedd, a'r Rheolwr Rheoli Datblygu i benderfynu a ddylai’r Cyngor fynd ar drywydd yr ail reswm dros wrthod ai peidio, pe bai’r apelydd yn cyflwyno unrhyw ddiwygiad i'r cynlluniau mynediad. Yn absenoldeb bod unrhyw fanylion mynediad derbyniol yn cael eu darparu, dylid parhau â’r ail reswm dros wrthod.

4.4. Bod y trydydd rheswm dros wrthod yn cael ei ddilyn yn benodol mewn perthynas â'r effaith y bydd y fynedfa newydd yn ei chael ar amwynder preswyl deiliaid yr eiddo yng nghyffiniau'r safle.

4.5. Codi absenoldeb angen fel pryder annibynnol y gellid gwrthod yr apêl yn briodol ar ei sail.

4.6. Tynnu sylw barn yr ymgynghorydd priffyrdd annibynnol a benodwyd gan y Cyngor i adolygu'r achos i sylw'r ymchwiliad.

GRAHAM H. BOASE
PENNAETH CYNLLUNIO A DIOGELU’R CYHOEDD